Annwyl Gwsmer

Swyddfa Bost® Llandinam
Y Swyddfa Bost, Llandinam, Powys, SY17 5BY

Ymgynghoriad Cyhoeddus – Ailagor y Gwasanaeth

Ysgrifennaf i'ch hysbysu, er mwyn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid yn Llandinam, ein bod yn cynnig cyflwyno gwasanaeth Allgymorth wedi ei Gynnal fydd yn gweithredu o Neuadd y Pentref, Llandinam, Powys, SY17 5BY.

Fe wnaeth y gangen gau dros dro ym mis Hydref 2015, oherwydd ymddiswyddiad y Postfeistr. Rydym bellach mewn sefyllfa i adfer gwasanaeth i'n cwsmeriaid yn y gymuned leol a sefydlu gwasanaeth Allgymorth wedi ei Gynnal yw'r ateb gorau posibl yn ardal Llandinam.

Mae'n bleser gennyf felly eich hysbysu bod Postfeistr o Swyddfa Bost Llangurig gerllaw wedi cael ei enwi, fydd yn cynnig y gwasanaeth o neuadd y pentref lleol, yn Llandinam. Mae manylion llawn y gwasanaeth newydd arfaethedig ar ddiwedd y llythyr hwn.

Ymgynghori ar y gwasanaeth newydd arfaethedig

Rydym bellach yn dechrau ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros 6 wythnos a hoffem glywed eich barn chi am addasrwydd y lleoliad newydd arfaethedig a'r gwasanaeth newydd. Cyn i ni derfynu ein cynlluniau, hoffem glywed eich barn am y cynnig hwn yn arbennig y meysydd canlynol:

- Pa mor addas yn eich barn chi yw'r lleoliad newydd a'r adeilad a pha mor hawdd ydyw i'w gyrraedd
- A yw'r adeilad newydd yn hawdd i chi fynd i mewn iddo ac a yw'n hygyrch y tu mewn
- A oes unrhyw faterion cymunedol lleol eraill y credwch allai effeithio ar neu gael eu heffeithio gan y newid arfaethedig
- Pe byddai'r cam yn mynd yn ei flaen, a oes unrhyw beth y gallem ei wneud i'w wneud yn haws i gwsmeriaid

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, anfonwch e-bost atom neu ysgrifennwch ataf i trwy ein tîm Cyfathrebu ac Ymgynghori, y mae eu manylion cyswllt isod. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn ei derbyn yn cael ei hystyried wrth i ni derfynu ein cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth newydd. Os oes gan bobl eraill yn eich sefydliad ddiddordeb yn y cynnig, mae croeso i chi eu hysbysu yn ei gylch.

Noder na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni bai eich bod yn gofyn yn benodol i ni wneud hynny trwy nodi "Cyfrinachol" yn glir arnynt.

Gallwch rannu eich safbwyntiau ar y symud arfaethedig trwy ein holiadur ar-lein newydd sydd yn hawdd ac yn gyfleus trwy'r ddolen isod. Wrth fynd i mewn i'r safle, gofynnir i chi roi'r côd ar gyfer y gangen hon: 178644

postofficeviews.co.uk

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

Dyddiadau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus lleol:

Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau	19 Ebrill 2017
Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dod i ben	31 Mai 2017
Mis arfaethedig y newid	Mai/Mehefin 2017

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn yn unol â'n Côd Ymarfer. Mae mwy o wybodaeth am y Côd ar ddiwedd y llythyr hwn. Byddwn yn eich hysbysu ynghylch y penderfyniad terfynol trwy arddangos poster yn lleol.

Diolch i chi am ystyried ein cynnig

Yn gywir

Sarah Cottrell
Rheolwr Ardal Gweithrediadau'r Rhwydwaith

Sut i gysylltu â ni:

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Customer Helpline: 03457 22 33 44
Textphone: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments
Please note this is the full address to use and no further address details are required.

Want to tell us what you think right here and now – scan here.

If you don't have a QR code scanner on your phone, you can find one in your app store.

Bydd eitemau a anfonir trwy Radbost yn cymryd 2 ddiwrnod gwaith i gyrraedd. Dylid anfon ymatebion trwy Radbost felly mewn da bryd i gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgynghori. Nid yw'r diwrnodau gwaith yn cynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul. Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau hwn yn cael eu hystyried.

I gael y wybodaeth yma ar fformat gwahanol, er enghraifft, mewn print mwy, ar sain neu mewn braille, cysylltwch â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Manylion y gwasanaeth arfaethedig:

Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Llandinam	
Lleoliad cangen newydd arfaethedig Swyddfa'r Post (yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus lleol)	
Cyfeiriad	Neuadd y Pentref Llandinam Llandinam Powys SY17 5BY
Oriau agor Swyddfa'r Post	Mawrth 09:00 – 11:00
Cynnyrch a Gwasanaethau	Bydd y rhan fwyaf o gynnyrch a gwasanaethau Swyddfa'r Post yn dal ar gael.
Pellter	40 metr i ffwrdd o'r gangen flaenorol, ar hyd tir gwastad.
Hygyrchedd a gwaith Hygyrchedd	**Mynediad a chyfleusterau** Byddai gan yr adeilad arfaethedig ddrws llydan a ramp gyda rheiliau llaw wrth y fynedfa. Y tu mewn, byddai dolen glyw a lle ar gyfer cadair olwyn. **Parcio** Gellir parcio ar ochr y ffordd gerllaw'r adeilad arfaethedig.
Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau	19 Ebrill 2017
Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dod i ben	31 Mai 2017
Mis arfaethedig y Newid	Mai/Mehefin 2017

Côd Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post

Beth yw Côd Ymarfer?
Mae'r Côd Ymarfer yn cynnwys canllawiau yr ydym yn eu dilyn. Maent yn dweud wrthym sut, a phryd i'ch hysbysu am newidiadau i'ch gwasanaethau Swyddfa'r Post lleol. Rydym wedi gweithio gyda'r corff gwarchod defnyddwyr annibynnol statudol ar y canllawiau hyn, sef Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain Fawr a'r Cyngor Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon.

Pa fath o newidiadau y mae'n eu cynnwys?
Gwybodaeth ynglŷn â phryd yr ydym yn bwriadu symud neu gau un o'n canghennau neu wasanaethau allgymorth. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth pan fydd cangen wedi cau'n annisgwyl oherwydd rhywbeth fel llifogydd neu dân.

Pwy ydym yn eu hysbysu am y newidiadau?
Chi a'ch cynrychiolwyr (sef ASau lleol neu awdurdodau lleol a chynghorau).

Sut byddwn yn dweud wrthych beth sy'n digwydd?
Os oes newid bach – fel newid amserau agor, byddwn yn eich hysbysu trwy roi posteri i fyny yn Swyddfa'r Post. Os mai'r bwriad yw symud Swyddfa Bost, byddwn yn rhoi posteri i fyny ac yn dosbarthu llythyrau yn y gangen yn ogystal ag ysgrifennu at eich cynrychiolwyr. Bydd gennym ddatganiad i'r wasg a bydd y wybodaeth berthnasol yn hawdd i'w chanfod ar ein gwefan.

Faint o amser bydd hyn yn cymryd?
Byddwn yn eich hysbysu am unrhyw newidiadau cyn gynted ag y gallwn. Weithiau, mae newid y tu hwnt i'n rheolaeth ni ond byddwn yn ceisio eich hysbysu ynghylch beth sy'n digwydd gymaint ag y gallwn. Rydym yn ceisio sicrhau eich bod yn cael 4 wythnos o rybudd cyn bod unrhyw beth yn digwydd. Os byddwn yn mynd i wneud newidiadau mawr, bydd 'cyfnod ymgynghori' fydd yn parhau tua 6 wythnos. Bydd hyn yn golygu bod gennych amser i roi gwybod i ni sut rydych yn teimlo.

Mae'n hawdd rhoi gwybod i ni beth yw eich barn...
Rydym eisiau clywed eich barn chi a'ch cynrychiolwyr am newid ac er mwyn sicrhau ei fod yn hawdd i chi roi gwybod i ni, mae ein manylion cyswllt i gyd ar ein posteri a'n llythyrau. Gallwch gysylltu â ni ar e-bost, trwy lythyr neu dros y ffôn.

Sut byddwch yn canfod beth yw'r cynlluniau terfynol?
Byddwn yn eich hysbysu mewn cymaint o ffyrdd â phosibl. Bydd posteri i fyny yn eich ardal leol, yn rhoi gwybod i chi beth sy'n mynd ymlaen. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at gynrychiolwyr lleol a bydd y wybodaeth ar ein gwefan.

Os byddwch yn rhoi gwybod i ni beth yw eich barn, byddwn yn sicrhau eich bod yn gwybod am ein cynlluniau terfynol naill ai trwy ysgrifennu atoch, neu wneud y wybodaeth yn hygyrch yn Swyddfa'r Post neu ar ein gwefan.

Beth allwch chi ei wneud os byddwch yn credu nad ydym wedi dilyn y Côd Ymarfer?
Os nad ydych yn credu ein bod wedi dilyn y Côd, ysgrifennwch atom neu anfonwch e-bost trwy'r manylion cyswllt sydd wedi eu cynnwys yn y llythyr hwn a nodwch pam.

I weld y Côd Ymarfer llawn, ewch i'n gwefan yn www.postofficeviews.co.uk